Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr

# Newyddlen

bywyd LIFE
GWASANAETH CYNNAL GOFALWYR
CARERS OUTREACH SERVICE

I rieni a gofalwyr oedolion ag anhawster dysgu (anabledd dysgu)

Gwanwyn 2017

Rhifyn 21

Mae Cynnal Gofalwyr yn eich gwahodd i ddod i:

**Grŵp cefnogi Rieni a Gofalwyr yn Llys Deudraeth, Stryd Fawr, Penrhyndeudraeth ar ddydd Mawrth 2 Mai 10.30 - 12.30**

**Grŵp cefnogi Rieni a Gofalwyr ym Mentec, Ffordd Deiniol, Bangor ar ddydd Mercher 3 Mai 10.30 - 12.30**

**Bydd Fforwm Gofalwyr yn cael ei gynnal yng Nghlwb Rygbi Dolgellau ar ddydd Iau 4 Mai 10.30 - 12.30**

I gadw'ch lle neu i gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Gwyneth ar y manylion cyswllt isod.


**Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr**
Llys Deudraeth,
Stryd Fawr,
Penrhyndeudraeth,
Gwynedd. LL48 6BL
☎ 01766 772 956
✉: help@carersoutreach.org.uk

**Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr**
Uned 6, Mentec,
Ffordd Deiniol,
Bangor,
Gwynedd. LL57 2UP
☎ 01248 370 797
www.carersoutreach.org.uk


Give as you Live

Cyfieithwyd i'r Gymraeg gan Angharad Edwards



Rhif Elusen Gofrestredig 1066262

# Newyddion Diweddaraf Cynnal Gofalwyr

## Croeso i'n newyddlen.



## Ein Logo newydd

Mae ein logo newydd yn darparu golwg newydd a ffres. I ni, mae'r 3 ôl bawd neu bys yn cynrychioli'r triongl ofalu: gofalwyr, y sawl sy'n cael gofal a Chynnal Gofalwyr. Mae'r olion bysedd hefyd yn ein hatgoffa bod pob gofalydd yn unigol a phob profiad gofalu'n wahanol. Mae'r gair Bywyd yno i bwysleisio bod gofalu'n rhan o fywyd! Rydym yma i helpu gofalwyr i gael y bywyd gorau posibl.

**Grwpiau cefnogi.**
**Mae pawb angen cefnogaeth rywbryd yn eu bywydau.**



Mae pob un ohonom siŵr o fod wedi teimlo'r angen i siarad ag eraill sy'n deall ein sefyllfa, megis pobl sydd wedi cael cyfrifoldebau gofalu tebyg.

Mae rhieni a gofalwyr wedi dweud wrthym mai un o'r ffyrdd gorau i'w cefnogi yw rhoi cyfle iddynt gwrdd â rhieni a gofalwyr eraill sy'n deall sut beth yw hi i fod yn ofalydd ers llawer o flynyddoedd. Mae llawer ohonoch wedi bod yn gofalu am 20, 30, 40, 50 + o flynyddoedd.

Fel yr hysbysebwyd gennym ar y dudalen flaen, rydym wedi trefnu grŵp cefnogi ym Mangor a Phenrhyndeudraeth ac rydym yn rhoi cynnig ar fformat arall o gefnogaeth yn Nolgellau; rydym ni'n ei alw yn Fforwm Gofalwyr.

**Os ydych chi'n credu y medrem fod yn eich cefnogi mewn gwahanol ffordd, rhowch wybod i ni ac fe wnawn ein gorau i ddiwallu'r anghenion hynny.**

## Grŵp Trawsffurfio Gwasanaethau Anableddau Dysgu

Cyfarfu'r grŵp uchod am y tro cyntaf ar 7 Rhagfyr 2016. Roedd y grŵp yn cynnwys Darparwyr Gwasanaethau sy'n cefnogi pobl dros 18 oed ag anhawster / anabledd dysgu, Cymdeithas Cyngor ac Eiriolaeth Gogledd Cymru, aelodau o dîm Anableddau Dysgu Oedolion y Gwasanaethau Cymdeithasol a Chynnal Gofalwyr.

Trafodwyd gwybodaeth am Ddatblygiad Tai Frondeg (gweler tudalen 4) a hefyd enghreifftiau o sut y medrir datblygu'r gwasanaethau yn y dyfodol. Dangosir un enghraifft ar dudalen 5. Mae'n dangos sut y medrir defnyddio Grant Gofal Canolraddol Llywodraeth Cymru i ariannu gwelliannau yng Nghanolfan Hamdden Arfon gynnig cyfleoedd i bobl ag anawsterau dysgu yng Ngwynedd.

Byddwn ni'n ceisio rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am gynnydd y grŵp hwn yn rheolaidd.

**Mae croeso i chi gysylltu â ni os oes angen gwybodaeth neu glust i wrando arnoch. Mae ein manylion cyswllt ar y dudalen flaen.**

# Cysylltu Bywydau Gwynedd

**Cynhaliwyd derbyniad ar gyfer Cysylltu Bywydau y DU yn Nhŷ'r Cyffredin yn ystod tymor yr Hydref, lle y gwnaeth y siaradwr gwadd, Nick Hurd AS ganu clodydd y Cynllun.**

Roedd ein AS lleol, Liz Saville-Roberts yn y derbyniad. Bu'n siarad â thîm Gwynedd wedi hyn i gael gwybod mwy am y cynllun a dysgu sut y mae bywydau rhai o'i hetholwyr wedi'u hymblethu â theuluoedd yn y sir.

Mae Cysylltu Bywydau yn ymwneud â theuluoedd yn y gymuned sy'n rhannu eu cartrefu a'u bywydau gydag oedolion ag anabledd dysgu. Sefydlwyd y Cynllun yn 2004, a bellach, mae ganddo fwy na 50 o leoliadau yng Ngwynedd ac Ynys Môn - mae pob unigolyn wedi cael budd o'r trefniant hwn ac mae rhai bywydau wedi'u gweddnewid yn llwyr.

Nododd Liz Saville-Roberts ei bod yn "*hynod o falch*" o weld cynllun o'r fath yn cael ei roi ar waith yng Ngwynedd. Wedi iddi gwrdd â thri unigolyn a oedd wedi defnyddio'r gwasanaeth, credai ei fod yn "*ddull modern o roi cymorth a byddai'n wych pe bai mwy o bobl yn dod ymlaen i fod yn alluogwyr posibl. Mae'n fendigedig gweld unigolion yn byw bywyd yn y gymuned fel rhan o rwydwaith teuluol.*

*Yr hyn a wnaeth argraff ddofn arnaf i oedd cymaint yr oedd Cysylltu Bywydau wedi cyfoethogi bywydau pawb. Caiff pobl cymaint o gwmni neu breifatrwydd ag y dymunant, ac nid oes angen i unrhyw un fod ar ei ben ei hun oni bai mai dyna yw ei ddymuniad. Medraf ddim ond bwyso ar bobl i ddysgu mwy, gan fod gan y trefniant hwn cymaint i'w gynnig."*



Tynnwyd y llun yng nghartref Gary a Joanne Taylor yn Nolgellau, sy'n alluogwyr trwy'r Cynllun Cysylltu Bywydau. Rhes gefn: Gary, Ann a Joanne. Rhes flaen: Sally, Bethan a Liz Saville-Roberts AS

Caiff trefniadau Cysylltu Bywydau eu trefnu a'u craffu gan gynllun Cysylltu Bywydau cofrestredig. Rhan o'r gwaith hwn yw asesu addasrwydd a diogelwch parhaus cartref a llety'r gofalwr Cysylltu Bywydau sy'n cael ei ddarparu i'r unigolyn sy'n byw yn y trefniant Cysylltu Bywydau; cynnal gwiriadau DBS (y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd – sy'n debyg i wiriad heddlu neu CRB) ar y gofalydd Cysylltu Bywydau; a sicrhau bod yr eiddo yn cydymffurfio â phrotocolau diogelwch tân, trydan a nwy.

**Os hoffai unrhyw ddarllenydd gymryd rhan yn y Cynllun hwn, cysylltwch â swyddfa Dolgellau ar 01341 424 440 neu cysylltwch trwy e-bost:**

**cynllun.lleoli@gwynedd.gov.uk**

# Datblygu Model Llety Newydd ar gyfer oeolion ag anabledd dysgu ar safle Frondeg, Caernarfon

**Gwybodaeth wedi ei  rannu gan Cyngor Gwynedd**

Mae Cyngor Gwynedd wedi adnabod Grŵp Cynefin fel partner ar gyfer datblygu model llety newydd ar safle Frondeg yng  Nghaernarfon. Cyflwynwyd  briff drafft ar gyfer y datblygiad iddynt ym mis Hydref 2016, datblygwyd y briff yma drwy gyd-weithio gydag unigolion, teuluoedd, aelodau staff a darparwyr gwasanaeth dros gyfnod o amser.

Mae Grŵp Cynefin wedi penodi penseiri diwedd mis Tachwedd, ac maent nawr yn gweithio ar ddatblygu cynlluniau drafft cychwynnol ar gyfer y datblygiad newydd. Gobeithir bydd cynlluniau drafft cychwynnol wedi eu llunio erbyn mis Mawrth 2017.


Yn dilyn derbyn y cynlluniau drafft cychwynnol, bydd cyfres o gyfleoedd ymgysylltu yn cael ei drefnu a byddwn hefyd yn cysylltu yn uniongyrchol gyda'r unigolion a theuluoedd, aelodau staff a darparwyr gwasanaeth  i dderbyn eu sylwadau ar y cynlluniau.

Mae yn bwysig i gofio y bydd lle i breswylydd presennol Y Frondeg yn y datblygiad newydd os dymunir. Bydd cyfle hefyd i rai unigolion sydd mewn lleoliadau tu allan i Wynedd ar hyn o bryd  ddychwelyd i fyw i Wynedd ynghŷd â chyfle i rai unigolion a phobl ifanc o Wynedd fydd angen llety i'r dyfodol. Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i adnabod y darpar denantiaid yma i wneud yn siŵr bydd y datblygiad yn addas ar eu cyfer.

Ni fydd defnydd presennol cartref 'Y Frondeg' yn dod i ben hyd nes bydd y datblygiad newydd wedi ei gwblhau, a bydd staff Y Frondeg yn symud gyda'r trigolion i weithio yn y datblygiad newydd.

**Camau Nesaf**

- Diweddaru unigolion, teuluoedd, a staff ar y sefyllfa, a'r camau nesaf
- Trefnu cyfres o gyfleoedd cyfarfod er mwyn edrych ar y cynlluniau draft
- Derbyn sylwadau ar y cynlluniau drafft cychwynnol
- Cytuno'r cynlluniau
- Cyflwyno cais cynllunio





Nodyn gan y golygydd

Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu cwestiynau  am y datblygiad uchod cysylltwch gyda Cynnal Gofalwyr ac fe wnawn yn siwr o'i basio mlaen i Cyngor Gwynedd

## Cyfleuster newydd i gyflwyno buddion i oedolion ag anableddau dysgu yn Arfon (ysgrifennwyd gan Gyngor Gwynedd)

Mae Cyngor Gwynedd wedi cael arian i ddatblygu model gwasanaeth newydd yng Nghanolfan Hamdden Arfon a fydd yn fuddiol i oedolion ag anableddau dysgu.




Bydd Grant Cronfa Gofal Canolraddol Llywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio i ailwampio ardal y caffi. Bydd y gwaith hefyd yn cynnwys moderneiddio'r ystafell gymunedol ar y llawr gyntaf er mwyn creu cyfleusterau hygyrch i'r Gwasanaeth Anableddau Dysgu, a fydd yn cynnwys ystafell wlyb gyda pheiriant codi ar drac a mainc newid y medrir addasu ei huchder.

Bydd y caffi, a fydd yn ail-agor ym mis Mai 2017, yn darparu profiad gwaith a chyfleoedd hyfforddi i oedolion ag anableddau dysgu i ddatblygu sgiliau bywyd ymarferol – yn ogystal â darparu gwasanaeth newydd i'r gymuned ehangach. Bydd y caffi yn hwyluso amrywiaeth o weithgareddau cymunedol ar sail anghenion y gymuned leol, ac mae rhai syniadau cychwynnol yn cynnwys grwpiau rhieni a phlant bach, sesiynau 'panad a sgwrs', gweithgareddau iechyd a lles, ynghyd â chymorthfeydd cynghori dros dro gan asiantaethau.

Bydd Gwasanaeth Anableddau Dysgu Cyngor Gwynedd yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i bob unigolyn trwy ymgysylltu ac eirioli'n barhaus â defnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd.

Dywedodd Ceryl Teleri Davies, Uwch-reolwr Anableddau Dysgu Oedolion Cyngor Gwynedd: "Ein gweledigaeth fel Gwasanaeth Anableddau Dysgu ar gyfer y dyfodol yw canolbwyntio ar ddatblygu a galluogi er mwyn annog unigolion i fod yn annibynnol."

"Golyga hyn bod y cymorth wedi'i lunio i helpu unigolion i ganolbwyntio ar eu cryfderau a'u cynorthwyo i ennill sgiliau byw'n annibynnol. Byddwn yn mynd ati i gefnogi unigolion ac yn rhoi eu hanghenion datblygu wrth wraidd pob ymyrraeth fel ein bod yn eu grymuso i fyw bywydau bodlon.

"Byddwn yn gweithio'n agos â defnyddwyr gwasanaethau, eu teuluoedd a staff yn y misoedd i ddod i ddatblygu'r dewisiadau er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni dyheadau personol pobl ar gyfer y dyfodol."

I gael rhagor o wybodaeth neu i awgrymu gweithgareddau a digwyddiadau cymunedol yr hoffech chi ei weld yn cael eu trefnu, cysylltwch â Ceryl Teleri Davies, Uwch-reolwr Anableddau Dysgu Oedolion Cyngor Gwynedd trwy e-bostio cerylteleridavies@gwynedd.llyw.cymru



**Nodyn gan y golygydd**

Mae gan bobl ag anawsterau / anableddau dysgu anghenion unigol.

Mae eu teuluoedd a'u ffrindiau'n ganolog i'w bywydau ac yn gwybod beth sy'n gweithio a ddim yn gweithio iddyn nhw.

Hoffem eich annog i rannu unrhyw syniadau neu bryderon sydd gennych ar unrhyw bwnc sy'n ymwneud â'ch gwaith gofalu. Cysylltwch â Gwyneth. Gweler y manylion ar y dudalen flaen.

# Prosiect Mencap WISE

Caiff prosiect **Mencap WISE** ei ariannu gan Lywodraeth Cymru am dair blynedd. Mae’n disodli hen Linell Gymorth Cymru Mencap. Mae’n wasanaeth am ddim sy’n cynnig cymorth, cyngor a gwybodaeth am unrhyw beth sy’n ymwneud ag Anableddau Dysgu. Medrwch gysylltu â phrosiect WISE o ddydd Llun i ddydd Gwener, 9am - 5pm ar 0808 8000 300 neu drwy anfon e-bost at information.wales@mencap.org.uk

Mae rhan o’r gwasanaeth newydd hwn yn cynnwys cyflwyno cyfres o sesiynau gwybodaeth gyfreithiol sy’n seiliedig ar bedwar “pecyn cymorth cyfreithiol” a gynhyrchwyd mewn partneriaeth ag Ysgol y Gyfraith Caerdydd (gweler y ddolen isod). Mae’r pecynnau cymorth yn darparu gwybodaeth fanwl am y pedwar maes canlynol o’r gyfraith ac maen nhw wedi’u hanelu’n benodol at bobl mewn swydd gefnogol:

- Cefnogi rhieni ag anabledd dysgu trwy’r system amddiffyn plant"
- Gwneud cais am le mewn coleg addysg bellach arbenigol: Canllaw i bobl ifanc rhwng 19 a 25 oed"
- Cael mynediad at ofal cymdeithasol a gwasanaethau iechyd: hawliau oedolion ag anabledd dysgu"
- Y gyfraith tai: hawliau tenantiaid ag anabledd"

Dyma ddolen i’r canllaw adnoddau ar-lein: https://www.mencap.org.uk/mencap-cymru/mencap-cymru-our-resources-and-guides

Yn ystod y tair blynedd nesaf, byddaf yn rhoi cyflwyniadau ledled ardaloedd Gogledd Cymru ar bob un o’r pecynnau cymorth hyn a’r wybodaeth sydd ynddynt a sut y medrir eu defnyddio i helpu pobl. Mae’r cyflwyniadau wedi’u llunio i bara am oddeutu un awr i bob thema, yn dibynnu ar y cwestiynau ar ôl y cyflwyniadau ac ati. Rwyf hefyd yn medru cyflwyno sesiwn fwy cyffredinol ar wasanaeth Mencap WISE a’r hyn y mae’n ei gynnig i rieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol.

Anthony Green, Mencap Cymru,
☎01248 361254, 07500046922

mencap cymru
Llais anabledd dysgu
The voice of learning disability

**Rydw i …..**
**Rydw i’n ofalgar**
**Rydw i’n gryf**
**Rydw i’n hyderus**
**Rydw i’n hapus**
**Rydw i’n anhygoel**
**Rydw i’n greadigol**
**Rydw i’n garedig**
**Rydw i’n arbennig**
**Rydw i’n hoffus**
**Rydw i’n ddawnus**
**Rydw i’n ystyriol**
**Rydw i’n ddewr**
**Rydw i’n gymwynasgar**
**Rydw i’n wych**
**Rydw i’n angerddol**
**Rydw i’n unigryw**
**Rydw i’n fi …….**

Hyd y gwyddom, roedd y wybodaeth a geir yn y cylchlythyr hwn yn gywir pan gafodd ei argraffu. Ni fedr Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr fod yn gyfrifol am unrhyw gamgymeriadau, esgeulustod nac ansawdd y wybodaeth a ddarperir gan fudiadau eraill, ac ni fedrwn argymell unrhyw gynnyrch na gwasanaeth.